

Dawn Bowden AS  
Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon,  
a'r Prif Chwip  
Llywodraeth Cymru

3 Chwefror 2023

## **Llythyr dilynol yn sgil cyfarfod y Pwyllgor ar 2 Chwefror 2023**

Annwyl Dawn

Diolch am ddod i'n cyfarfod Pwyllgor ddydd Iau 2 Chwefror 2023 i drafod yr honiadau diweddar yn ymwneud ag Undeb Rygbi Cymru. Fel arfer, mae'r Pwyllgor yn ddiolchgar i chi a swyddogion Llywodraeth Cymru am neilltuo amser i gwrdd â ni.

Yn dilyn ein sesiwn, hoffem ofyn nifer o gwestiynau dilynol.

### **Rôl Llywodraeth Cymru**

Hoffem gael gwell dealltwriaeth o'r hyn y gall ac na all Llywodraeth Cymru ei wneud mewn materion fel yr un sydd wedi codi'n ddiweddar. Er enghraifft, a allech chi egluro sut y mae Llywodraeth Cymru yn rhyngweithio â Chwaraeon Cymru i godi pryderon a mynd i'r afael â materion sy'n peri pryder mewn corff llywodraethu cenedlaethol sy'n destun honiadau gwenwynig o'r fath?

At hynny, a allwch chi amlinellu unrhyw bŵer a allai fod gennych i gyfyngu cyllid, gan gynnwys unrhyw nawdd gan Lywodraeth Cymru, i gorff llywodraethu cenedlaethol lle mae gennych bryderon difrifol am weithgarwch yr honnir iddo ddigwydd, yn enwedig pan fo'r pryderon hynny hefyd wedi'u codi gyda chi mewn gohebiaeth ffurfiol?

### **Llinell amser digwyddiadau**

Hoffem gael dealltwriaeth well o'r hyn yr oeddech chi a Llywodraeth Cymru yn ei wybod, a phryd, ynglŷn â'r honiadau sydd wedi'u gwneud yn erbyn Undeb Rygbi Cymru. A allech roi dadansoddiad inni, mewn trefn gronolegol, o ran pryd y codwyd materion gyda chi, ac unrhyw gamau a gymerwyd a phryd, gan gynnwys pob cyfarfod gydag URC? Byddem yn ddiolchgar pe gallai hyn gynnwys gwybodaeth yn ymwneud â'r cyfarfod pan ganiatawyd i'ch swyddog ddarlennu copi o'r Adolygiad Rygbi Menywod am ugain munud, a pha gamau a ddeilliodd o hyn.

### **Cyhoeddi gohebiaeth**

Yn olaf, byddem yn croesawu copïau o'r ohebiaeth a gawsoch gan Tonia Antoniazzi AS mewn perthynas â'r mater hwn, ac unrhyw ymateb ffurfiol a anfonwyd. A allech hefyd amlinellu pa gyngor a roddwyd ichi gan swyddogion pan gawsoch yr ohebiaeth hon?



Mae'r Pwyllgor wedi penderfynu cadw llygad barcud ar y mater hwn a bydd yn parhau i fynd ar drywydd meysydd ymchwilio eraill sy'n ymwneud ag ef.

Yn gywir,



Delyth Jewell AS

Cadeirydd y Pwyllgor

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.